

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell

Ward: Cefn Glas

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cefn Glas ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 52 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Ers cael fy ethol ym mis Mai y llynedd, rwyf wedi helpu llawer o etholwyr gydag amrywiaeth o broblemau, o gasglu gwastraff, tyllau yn y ffordd, torri glaswellt a helpu gyda gwasanaethau cymdeithasol.

Rwyf wedi cynnal cymhorthfa fisol yng Nghanolfan Gymunedol Westward lle rwy'n cwrdd ag etholwyr a cheisio eu helpu yn y ffordd orau y gallaf.

Gan weithio gyda Chyngor Cymuned Trelales rydym wedi adnewyddu'r parciau mae plant Cefn Glas yn chwarae arnynt fel eu bod yn ddiogel ac wedi'u diweddarau.

Gan weithio gyda phobl leol a PCSOs rydym wedi helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ward drwy osod camera ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn i ni allu helpu i atal digwyddiadau yn yr ardal hon.

Mae llawer o drigolion wedi cysylltu â mi ynghylch cyflwr y ffyrdd yn ein hardaloedd. Dyma fu un o'm prif flaenoriaethau ers cael fy ethol ac mae wedi bod yn dasg anodd gyda'r toriadau yn y gyllideb ond er gwaethaf hyn mae nifer o ffyrdd a phalmentydd wedi'u hailbalmantu. Efallai fod y cynnydd yn araf ond mae'n gyson ac yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Mae torri glaswellt wedi bod yn broblem yn ddiweddar gyda V2C ymhell y tu ôl i'r amserlen ac felly gan weithio ochr yn ochr â chynghorwyr sy'n cynrychioli cymunedau cyfagos rydym wedi cyflwyno sylwadau cryf i V2C ac mae'n ymddangos ein bod ar y trywydd cywir.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ers cael fy ethol, rwyf wedi cymryd rhan mewn sawl menter. Un fenter bwysig iawn oedd helpu pobl leol i gael eu lleisiau wedi'u clywed ar yr ymgynghoriad ar y cymorthdaliadau ar gyfer rhai gwasanaethau bws gan gynnwys llwybrau drwy Gefn Glas. Roedd yn allweddol sicrhau bod lleisiau pobl Cefn Glas yn cael eu clywed a dyna a wnaethom. Cynhaliwyd cyfarfodydd agored lle gallai pobl ymuno â ni, dweud eu dweud a llenwi pecyn ymgynghori hefyd. Cawsom un o'r ymatebion uchaf ac rwy'n mynd i sicrhau y bydd eu lleisiau yn parhau i gael eu clywed ar y pwnc hynod bwysig hwn.

Un o'r prif faterion rwyf wedi sylwi arno ac y mae llawer o drigolion wedi cysylltu â mi yn ei gylich yw'r broblem gyda cheir yn parcio weithiau'n anghyfreithlon o amgylch ysgolion a'r traffig a achosir gan hyn. Ymddengys fod y brif broblem o amgylch yr ysgol gyfun. Felly roeddwn yn falch o bleidleisio dros y car camera newydd o amgylch Cefn Glas, a'i weld yn cael ei ddefnyddio. Mae'r camera hwn yn gallu mynd o amgylch a rhoi tocyn i unrhyw un sy'n parcio'n anghyfreithlon ac yn peryglu ein plant.

Enghraifft arall o gydweithio rhyngof innau, CBSP a Chyngor Cymuned Trelales yw y byddwn, yn y dyfodol agos, yn cael person lolipop y tu allan i'r fynedfa i ysgol iau Llangewydd oherwydd bod nifer o drigolion wedi codi'r mater o oryrru ar Heol Llangewydd.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Ers mis Mai 2017, rwyf wedi dod yn llywodraethwr ar y ddwy ysgol yn fy ward; Ysgol Fabanod Cefn Glas ac Ysgol Gyfun Bryntirion. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ddatblygu cysylltiadau gwell rhyngof i a'r ysgolion rhagorol hyn. Rwyf wedi gallu gweld y berthynas rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol o'r ddwy ochr a gweld yr hyn sydd ei angen ar yr ysgolion gan yr awdurdod lleol a sut y gallant weithio gyda'i gilydd yn well.

Rwyf hefyd wedi cael y pleser o helpu Grŵp Pobl Dros 50 oed 'Young at Heart' yng Nghanolfan Gymunedol Westward, sef sefydliad sy'n helpu cenhedlaeth hŷn ein cymuned i fynd allan a chyfarfod pobl eraill a chreu cyfeillgarwch a helpu i fynd i'r afael â phroblem unigrywdd.

Y Cyngorydd JPB Jon-Paul Blundell

Dyddiad: 26/05/2018